**Rhif:** WG51172

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Herio bwlio ac aflonyddu

## Hawliau, parch, cydraddoldeb – canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a lleoliadau

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2025
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb sy'n rhoi gwybodaeth i bawb sy'n gweithio i atal a herio bwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysgol.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer unrhyw un sydd â rôl neu fuddiant yn ymwneud â gwrth-fwlio mewn ysgolion, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni/gofalwyr a phartïon eraill sydd â buddiant.

## Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Gorffennaf 2025** fan hwyraf.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

## Manylion cyswllt

Lles a Diogelu
Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: YgynghoriadCydraddoldebParchuHawliau@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Crynodeb

## Pam rydym yn adolygu y canllawiau hyn?

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, nid yw'r ysgol yn brofiad cadarnhaol i bob plentyn a pherson ifanc. Ni ddylai ein gwahaniaethau byth fod yn rheswm i rywun gael ei fwlio neu ei gam-drin. Mae bwlio yn parhau i fod yn broblem ac mae'n cael effaith sylweddol, yn enwedig ar les emosiynol plant. Ymrwymwyd i ddiweddaru'r canllawiau gwrthfwlio 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' a gyhoeddwyd yn 2019 i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth a datblygiadau polisi cyfredol.

## Beth yw diben yr ymgynghoriad?

Rydym wedi adolygu y canllawiau i gefnogi ysgolion i weithio tuag at feithrin cydberthynasau cadarnhaol a pharchus ymhlith plant a phobl ifanc. Mae mynd i'r afael â bwlio a'i effaith yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym am anfon y neges fod bwlio yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef. Rydym hefyd am fod yn glir y byddwn yn cefnogi'r targed, ac yn gweithio gyda'r tramgwyddwr i gydnabod y niwed y mae wedi'i wneud, gan eu helpu i ddod o hyd i ffordd gadarnhaol o symud ymlaen.

Mae'r adolygiad yn ystyried argymhellion adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, sef 'Cymerwch y peth o ddifri': Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd', ac ymrwymiad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i gryfhau'r canllawiau mewn perthynas â bwlio ar sail hil.

Mae'r canllawiau hefyd yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn adroddiad Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion uwchradd (Rhagfyr 2021), sef 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', ac maent yn cysylltu â gofyniad Cynllun Gweithredu LHDTC+ i gynhyrchu canllawiau ar faterion traws i ysgolion, ac i gryfhau rhannau o ganllawiau sy'n gysylltiedig â rhagfarn, gan gynnwys rhoi sylw i ymchwil berthnasol arall sydd ar gael ers 2019.

Dylid mabwysiadu, datblygu ac adeiladu'r dulliau fel eu bod yn cyd-fynd ag anghenion plant a rhieni/gofalwyr.

## Yr ymgynghoriad ar y canllawiau

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar eglurder a defnyddioldeb y canllawiau i fod yn ddefnyddiol i holl reolwyr, staff a gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gweithio mewn lleoliad addysgol, ysgol a gynhelir neu ysgol nas cynhelir, uned cyfeirio disgyblion, ysgol annibynnol, ysgol arbennig, neu leoliad addysg nad yw'n lleoliad ysgol, er mwyn helpu i ddatblygu a gweithredu polisïau a strategaethau gwrthfwlio. Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion roi sylw i'r canllawiau hyn pan fyddant yn ystyried eu trefniadau gwrthfwlio.

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu fel a ganlyn:

1. Cyflwyniad
2. Ystyr bwlio
3. Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn
4. Bwlio mewn cyd-destun ar-lein
5. Y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio
6. Beth sy'n gweithio wrth lansio strategaethau newydd
7. Llywodraethiant
8. Atal bwlio
9. Ymateb pan fydd bwlio yn digwydd
10. Ymyriadau
11. Gwerthuso ac atebolrwydd

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 –** A yw'r canllawiau drafft Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol sy'n addas i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn llywio dulliau i atal pob math o fwlio ac i ymateb iddynt?

**Cwestiwn 2 –** A yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

**Cwestiwn 3 –** A yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

**Cwestiwn 4 –** A yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn cysylltu'n iawn â meysydd polisi ehangach ac â chanllawiau ar bynciau ar wahân sy'n gysylltiedig?

**Cwestiwn 5** - A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys?

**Cwestiwn 6 –** A yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn cael eu hesbonio'n glir?

**Cwestiwn 7 –** A yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn hawdd eu defnyddio?

**Cwestiwn 8 –** A ddylai meysydd eraill gael eu cynnwys yn y canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio nad ydych wedi cael cyfle i wneud sylwadau arnynt uchod?

**Cwestiwn 9 –** Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio?

**Cwestiwn 10 –** A yw'r gyfres bresennol o hyfforddiant ar Hwb yn cefnogi'r defnydd o'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio?

**Cwestiwn 11 –** Pa mor effeithiol yw'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio yn eich cefnogi i adrodd a chofnodi digwyddiadau o fwlio?

**Cwestiwn 12** – I ba raddau yr ydych yn cytuno y dylid diwygio Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgolion) 1999 i wneud yn glir y gall ysgolion ddarparu toiledau niwtral o ran rhywedd yn ogystal â thoiledau sydd wedi'u gwahanu ar sail rhyw?

**Cwestiwn 13 –** Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y newidiadau i'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 14 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau Hawliau, parch, cydraddoldeb ar wrthfwlio er mwyn:

- sicrhau eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymateb i'r cwestiynau uchod.